

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

---

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd**

---

Dyddiad:

**Dydd Iau, 18 Medi 2014**

---

Amser:

**09.15**

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

029 2089 8403

[PwyllgorIGC@cymru.gov.uk](mailto:PwyllgorIGC@cymru.gov.uk)

---

### Agenda

---

Yn y cyfarfod ar 16 Gorffennaf 2014, penderfynodd y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) wahardd y cyhoedd ar gyfer eitem 1 yn y cyfarfod ar 18 Medi 2014.

**1 Ymchwiliad i'r cynnydd a wnaed hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru: trafod yr adroddiad drafft (09.15–10.00) (Tudalennau 1 – 63)**

**2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (10.00)**

**3 Papurau i'w nodi (10.00) (Tudalennau 64 – 87)**

**4 Ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 17 (10.00 – 10.45) (Tudalennau 88 – 112)**

Dr Anna Kuczynska, Cyfarwyddwr Ardal Meddygon Teulu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Charlotte Moar, Cyfarwyddwr Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Anthony Tracey, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwybodeg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Egwyl (10.45 – 10.50)

**5 Ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru:  
sesiwn dystiolaeth 18 (10.50 – 11.35) (Tudalennau 113 – 121)**

Dr Mark Vaughan, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru

Dr Nazia Hussain, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol

Dr Peter Horvath-Howard, Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru

Dr Charles Allanby, Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru

**6 Ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru:  
sesiwn dystiolaeth 19 (11.35 – 12.20) (Tudalennau 122 – 138)**

Andrew Bell, Yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol

Sue Evans, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

David Williams, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

**7 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd  
y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 8, 10 ac 11 (12.20)**

**8 Ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: trafod  
y dystiolaeth a gafwyd (12.20 – 12.30)**

Cinio (12.30 – 13.30)

**9 Craffu ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r  
Dirprwy Weinidog Iechyd: craffu cyffredinol ac ariannol (13.30 – 15.00)  
(Tudalennau 139 – 211)**

Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Vaughan Gething AC, y Dirprwy Weinidog Iechyd

Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol

Martin Sollis, Cyfarwyddwr Cyllid

**10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol – Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd: trafod yr adroddiad drafft (15.00 – 15.20)**  
(Tudalennau 212 – 219)

**11 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon"): ystyried amserlen ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu (15.20 – 15.30)** (Tudalennau 220 – 225)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

---

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 1 a 2 – Y Senedd**

---

Dyddiad: **Dydd Mercher, 16 Gorffennaf 2014**

---

Amser: **08.45 – 13.00**

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

<http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf>

---

### Cofnodion Cryno:

---

#### Aelodau'r Cynulliad:

**David Rees AC (Cadeirydd)**  
**Leighton Andrews AC**  
**Andrew RT Davies AC**  
**Ann Jones AC**  
**Elin Jones AC**  
**Darren Millar AC**  
**Lynne Neagle AC**  
**Gwyn R Price AC**  
**Lindsay Whittle AC**  
**Kirsty Williams AC**

---

#### Tystion:

**Keith Evans**  
**Y Gwir Anrhydeddus Ann Clwyd AS, cyd-Gadeirydd yr Adolygiad o System Gwyno Ysbytai'r GIG (GIG Lloegr).**  
**Mr Phil Banfield, BMA Cymru**  
**Tina Donnelly, Goleg Brenhinol y Nyrsys**  
**Rory Farrelly, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**  
**Dr Chris Jones, Bwrdd Iechyd Cwm Taf (Saesneg yn unig)**  
**Carol Shillabeer, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (Saesneg yn unig)**  
**Nicola Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

---

---

---

Staff y Pwyllgor:

Llinos Madeley (Clerc)  
Helen Finlayson (Ail Clerc)  
Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)  
Rhys Morgan (Dirprwy Glerc)  
Victoria Paris (Ymchwilydd)  
Philippa Watkins (Ymchwilydd)

---

## **1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon**

**1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rebecca Evans a Janet Finch-Saunders. Roedd Ann Jones yno fel dirprwy i Rebecca Evans ac Andrew RT Davies yn ddirprwy i Janet Finch-Saunders.**

## **2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**

**2.1 Derbyniwyd y cynnig.**

## **3 Ymchwiliad i'r cynnydd a wnaed hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru: trafod y materion allweddol**

**3.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y materion allweddol sydd wedi codi o'r ymchwiliad.**

**3.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â'r Rheoliadau Diogelu Data Ewropeaidd.**

## **4 Ymchwiliad i broses gwyno'r GIG: sesiwn dystiolaeth 1**

**4.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.**

## **5 Ymchwiliad i broses gwyno'r GIG: sesiwn dystiolaeth 2**

**5.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.**

## **6 Ymchwiliad i broses gwyno'r GIG: sesiwn dystiolaeth 3**

**6.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.**

**6.2 Cytunodd y tystion i ddarparu rhagor o wybodaeth am y canlynol:**

- gyfanswm y cwynion a dderbyniwyd, y gyfran sy'n ymwneud â gofal sylfaenol a'r gyfran sy'n ymwneud â gofal eilaidd yn y GIG yng Nghymru am bob bwrdd iechyd lleol; a
- rhagor o wybodaeth am y dulliau a fabwysiadwyd gan fyrddau iechyd lleol i fesur profiad y claf, gan gynnwys adborth gan gleifion a'u barn am y broses gwyno.

## **7 Ymchwiliad i broses gwyno'r GIG: sesiwn dystiolaeth 4**

### **7.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.**

## **8 Papurau i'w nodi**

### **8.1a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 26 Mehefin a'r 2 Gorfennaf.**

8.1 Blaenraglen waith y Pwyllgor: Medi – Rhagfyr 2014

8.2 Nododd y Pwyllgor y flaenraglen waith ar gyfer mis Medi i fis Rhagfyr 2014

## **9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o eitem 1 y cyfarfod ar 18 Medi 2014**

9.1 Derbyniwyd y cynnig.

## **10 Ymchwiliad i broses gwyno'r GIG: trafod y dystiolaeth mewn sesiwn breifat**

10.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd ar gyfer yr ymchwiliad.



Mark Drakeford AC / AM  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF MD 2136 14

David Rees AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

12 Gorffennaf 2014

*Annwyl David,*

Pan drafodwyd adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn y cyfarfod llawn ar 4 Mehefin, fe gofiwch imi sôn am fy mwriad i gomisiynu adolygiad o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Cyhoeddais fod Ruth Marks, cyn-Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, wedi cytuno i arwain y gwaith hwn.

Rwyf bellach wedi cytuno ar gylich gorchwyl yr adolygiad, ac amgaeaf gopi er gwybodaeth.

Bydd Mrs Marks yn cyflwyno adroddiad ar ei chanfyddiadau a'i chynigion adeg yr hydref, 2014.

*In gywir,  
Mark.*

Mark Drakeford AC / AM  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

cc  
Elin Jones AC  
Darren Millar AC  
Kirsty Williams AC

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)  
Tudalen y pecyn 67

English Enquiry Line 0845 010 3300  
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400  
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@cymru.gsi.gov.uk  
Printed on 100% recycled paper

## Llywodraeth Cymru

### Adolygiad o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

#### Cylch Gorchwyl

#### Y cefndir

Ym mis Gorffennaf 2013 cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei fod wedi penderfynu cynnal ymchwiliad byr i waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi ar 21 Mawrth 2014. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad sylfaenol o AGIC, er mwyn diwygio, datblygu a gwella ei swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu. Ddeng mlynedd ar ôl sefydlu AGIC - a'r Cynulliad Cenedlaethol bellach yn meddu ar gyfres o bwerau deddfu gwahanol iawn - cytunodd Llywodraeth Cymru mai dyma'r adeg iawn i gynnal adolygiad o'r fath. Yn ystod y degawd ers ei sefydlu mae AGIC, yn ddiamau, wedi cael cyfres o gyfrifoldebau ychwanegol. Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw cylch gwaith AGIC bellach yn ddigon ystyrlon, gan ystyried sut y gellid ei symleiddio a'i gryfhau. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried pwerau deddfu Gweinidogion Cymru sy'n cael eu harfer gan AGIC.

#### Diben

Bydd yr adolygiad annibynnol hwn felly'n ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Adolygu swyddogaethau a chyfrifoldebau presennol AGIC. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu hanes AGIC a disgrifio'r cyfrifoldebau ychwanegol a drosglwyddwyd iddi yn ystod y 10 mlynedd ers ei sefydlu, er mwyn pennu: a fyddai unrhyw rai ohonynt yn cael eu cyflawni'n well gan gorff arall; neu a oes unrhyw fylchau yn y gwasanaethau gofal iechyd y mae angen mynd i'r afael â nhw.
- Ystyried cylch gwaith AGIC o ran y GIG a'r sector gofal iechyd annibynnol, er mwyn pennu a oes digon o gydweithredu ar draws y sectorau sy'n sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r un safonau. Dylai hyn gynnwys yr elfen arolygu a'r elfen reoleiddio sy'n rhan o'i chylch gwaith.
- Elwa ar brofiadau arolygiaethau eraill, er enghraifft, y gwersi y gallai Cymru eu dysgu gan y methodolegau sy'n cael eu datblygu yn yr Alban, yng Ngogledd Iwerddon, ac yn Lloegr.
- Edrych ar batrwm cymhleth y ddeddfwriaeth sy'n sail i waith AGIC, a phenderfynu sut y gellid ei chydgrynhoi, ei symleiddio a/neu ei chryfhau, gan ystyried y newid sy'n digwydd ym maes gwasanaethau gofal iechyd a'r symud tuag at ddarparu mwy o ofal yn y gymuned.
- Rhoi ystyriaeth i waith ehangach, gan gynnwys yr Adolygiad Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio, y Bil Rheoleiddio ac Arolygu, diwygio'r Cynghorau Iechyd Cymuned, a'r camau gweithredu perthnasol sy'n codi yn sgil Comisiwn Williams, er mwyn ystyried goblygiadau posibl y gwaith hwn mewn perthynas â gweithredu AGIC.
- Ymgymryd â chyfnod o feithrin perthynas â rhanddeiliaid allweddol er mwyn ceisio barn ehangach am ddyfodol swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC.

- Datblygu cynigion a fydd yn sail i ran o'r papur gwyrdd a fydd yn pennu cwmpas Bil ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn y GIG, a gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw gamau y gellid eu rhoi ar waith cyn i unrhyw newid deddfwriaethol ddigwydd.

Bydd yr adolygiad yn dechrau ym mis Gorffennaf 2014, a bydd adroddiad ar y canfyddiadau ar gael yn ystod yr hydref, 2014.



Ein cyf/Our ref SF-MD-2016-14

Kirsty Williams AM  
Darren Millar AM  
Elin Jones AM

14 Gorffennaf 2014

*Annwyl Aelod,*

### Adolygiad o Fuddsoddi mewn Addysg i Weithwyr Iechyd Proffesiynol

Mae Llywodraeth Cymru'n buddsoddi mwy na £350m bob blwyddyn ar gefnogi dros 15,000 o fyfyrwyr a hyfforddeion ledled Cymru sy'n ymgymryd â rhaglenni ym maes iechyd. Mae hyn yn cynnwys addysg i israddedigion, ôl-raddedigion yn ogystal ag addysg broffesiynol barhaus. Rwyf am sicrhau bod y trefniadau sy'n sail i'r buddsoddi hwn yn helpu i gyflawni'r newidiadau y mae eu hangen yn y gweithlu er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol. Rwyf, felly, wedi penodi panel i adolygu buddsoddiad Cymru mewn addysg i weithwyr iechyd proffesiynol.

Caiff yr adolygiad ei arwain gan Mel Evans, Cadeirydd Bwrdd Addysgu Iechyd Powys. Aelodau eraill y Panel fydd Dr David Salter, cyn Ddirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru, yr Athro Ceri Phillips, Athro Economeg Iechyd yng Nghanolfan Economeg Iechyd Abertawe a Mr Dick Roberts CBE, Dirprwy Ganghellor ym Mhrifysgol Caerdydd a chyn Gyngorydd Optometrig Cymru.

Bydd yr adolygiad yn ystyried nifer o faterion gan gynnwys:

- Natur y buddsoddiad presennol mewn addysg i weithwyr iechyd proffesiynol - yr hyn yr ydym yn ei ariannu ac a yw hyn yn darparu'r cymorth angenrheidiol i'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru;
- Sut y mae'r buddsoddiad hwn yn dwyn ffrwyth;
- Y trefniadau presennol sydd wedi'u sefydlu ar gyfer cynllunio canolraddol a thymor hwy yn y GIG ac a yw'r rhain yn hwyluso gweithio amlbroffesiynol;
- I ba raddau y byddai cymhellion a/neu amodau yn hybu addysgu, hyfforddi a chadw gweithwyr iechyd proffesiynol ledled Cymru;
- Sut y mae anghenion a safonau gofal iechyd yn llywio cynllunio, dylunio rolau a chomisiynu addysg.

Amgaeir Cylch Gorchwyl yr adolygiad hwn ynghyd â gwybodaeth bellach am aelodau'r panel.

Rwyf yn disgwyl i'r panel gyflwyno ei ganfyddiadau erbyn diwedd y flwyddyn.

Rwyf yn angof copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac yn wyneb materion trawsbynciol yr adolygiad rwyf hefyd yn anfon copi at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

In gywir,

Mark.

**Mark Drakeford AC / AM**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

## Adolygiad o Fuddsoddi mewn Addysg i Weithwyr Iechyd Proffesiynol

### Cylch Gorchwyl

#### Diben yr Adolygiad

Prif swyddogaeth y Panel fydd cynnal adolygiad ffurfiol o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n buddsoddi mewn cynllunio, datblygu a chomisiynu'r Gweithlu Iechyd yng Nghymru.

#### Meysydd allweddol

Wrth gynnal yr adolygiad hwn bydd y panel yn:

- ymchwilio i'r trefniadau sy'n bodoli ar hyn o bryd ac yn nodi cryfderau a gwendidau'r system.
- dadansoddi'r buddsoddiad sydd wedi'i wneud mewn addysg Iechyd yng Nghymru; asesu i ba raddau y mae'r buddsoddiad yn dwyn ffrwyth ac a yw ar lefel briodol.
- ystyried y model presennol sef y 'model a reolir' ar gyfer comisiynu addysg sy'n cael ei fabwysiadu yng Nghymru ochr yn ochr â dulliau gweithredu eraill yn y DU / gwledydd eraill a darparu argymhellion am ddull gweithredu i'w fabwysiadu yn y dyfodol.
- ystyried a fyddai sefydlu un corff sy'n dod â'r swyddogaethau hyn ynghyd o fudd i Gymru ac os felly pa swyddogaethau y dylai eu cynnwys
- ystyried i ba raddau y gallai trefniadau sy'n seiliedig ar gymhellion fod o fudd i'r agenda addysg a hyfforddiant yng Nghymru.
- ystyried y dull gweithredu polisi ehangach mewn perthynas â gofal Iechyd darbodus a beth y mae hyn yn ei olygu i addysg a hyfforddiant gweithwyr gofal Iechyd proffesiynol a grwpiau staff.

#### Amserlen

Bydd y Panel yn adrodd ar ei ganfyddiadau trwy gyfrwng adroddiad ffurfiol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol erbyn diwedd Rhagfyr 2014.

#### Dull gweithredu

Y panel yn cyfarfod i gytuno ar ddull gweithredu ar gyfer yr adolygiad.

#### Ymgysylltu

Bydd y panel yn nodi rhanddeiliaid allweddol ac yn penderfynu ar fyrdde priodol o ymgysylltu ag unigolion / cyrff i ganiatáu i gasgliadau ac argymhellion gael eu seilio ar dystiolaeth briodol.

#### Cymorth

Caiff yr adolygiad ei gynorthwyo gan Reolwr Adolygiad yng Nghyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn Llywodraeth Cymru.

## Cadeirydd ac Aelodau'r Panel

### **Mel Evans - Cadeirydd**

Ar hyn o bryd Mr Evans yw Cadeirydd Bwrdd Addysgu Iechyd Powys. Ac yntau wedi cael ei addysg yn Ysgol Ramadeg Ferndale a Phrifysgol Lerpwl mae Mr Evans yn gyfrifydd cymwysedig a bu ganddo yrfa ym maes cyllid yn y sector cyhoeddus ehangach a'r GIG.

Ymhlith ei swyddi blaenorol mae Cyfarwyddwr Cyllid Awdurdodau Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Teulu, Morgannwg Ganol; Cyfarwyddwr Cyllid a Cyfarwyddwr Contractio yn Awdurdod Iechyd Bro Taf a Rheolwr Cyffredinol Grŵp Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf, tan 31 Mawrth 2003. Bryd hynny penodwyd Mr Evans yn Brif Weithredwr y corff a'i holynodd – sef Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf tan 2009, yr un pryd â'r swydd hon, rhwng 2007 a 2009, a bu hefyd yn Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful.

### **Yr Athro Ceri Phillips – Aelod o'r Panel**

Yr Athro Ceri Phillips yw Athro Economeg Iechyd a Dirprwy Bennaeth Ysgol (Ymchwil) ym Mhrifysgol Abertawe ac mae wedi meithrin cysylltiadau agos â'r Uned Gwella Clwyfau a'r Ganolfan Ymchwil i Anabledd ym Mhrifysgol Caerdydd a'r Uned Ymchwil i Boen yn Ysbyty'r Radcliffe yn Rhydychen. Mae'r Athro Phillips wedi ymgymryd â gwaith ymchwil ar ran ystod o sefydliadau, gan gynnwys Mudiad Iechyd y Byd, Llywodraeth Cymru, yr Adran Iechyd, yr Adran Gwaith a Phensiynau ac ystod o awdurdodau iechyd a chwmnïau fferyllol.

Mae'r Athro Phillips yn aelod o ystod eang o grwpiau a byrddau gan gynnwys Comisiwn Bevan, Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG), Is-gadeirydd ei Grŵp Meddyginiaethau Newydd a bu'n aelod o Grwpiau Datblygu Rhaglenni NICE ar ystod o faterion iechyd y cyhoedd.

Mae'r Athro Phillips wedi cyhoeddi dros 130 o lyfrau ac erthyglau mewn cyfnodolion ym maes economeg iechyd a pholisi iechyd.

### **Dr David Salter – Aelod o'r Panel**

Ac yntau wedi ymddeol bellach, Dr David Salter yw cyn Ddirprwy Brif Swyddog Meddygol (CMO) Cymru. Fel Dirprwy CMO, roedd Dr Salter yn rhoi cyngor a chanllawiau proffesiynol annibynnol i'r Prif Weinidog, Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd ei swydd fel Dirprwy CMO, bu Dr Salter yn arwain ar lawer o faterion sy'n effeithio ar iechyd pobl Cymru. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys adolygiad o'r achosion o E Coli yn 2006. Gwnaeth yr adolygiad argymhellion i leihau'r risg y byddai achosion fel hyn yn digwydd eto.

Fel rhan o Banel Craffu yn 2013, lluniodd Dr Salter adroddiad ar gynigion ar gyfer newid mewn gwasanaethau mewn perthynas â gwasanaethau newyddenedigol yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin ac Ysbyty Llwynhelyg, Hwlfordd.

### **Mr Dick Roberts CBE – Aelod o'r Panel**

Ar hyn o bryd Mr Roberts yw Dirprwy Ganghellor Prifysgol Caerdydd. Ac yntau'n gyn Brif Gynghorydd Optometrig Cymru bu Mr Roberts yn gyfrifol am Archwiliad Iechyd Llygaid Cymru ac am sefydlu Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru. Fe lwyddodd i argyhoeddi'r proffesiwn i ymgymryd â hyfforddiant ac achrediad pellach er mwyn sefydlu lefelau cymwyseddau sydd hyd yn oed un uwch na'r rhai y mae eu hangen yn wladol.

Ac yntau'n Aelod o'r Cyngor Optegol Cyffredinol rhwng 1981 a-2006, bu'n gadeirydd ar y Pwyllgor Ymchwilio am 20 mlynedd. Yn rhinwedd ei rôl fel ymwelydd ar ran y Cyngor Optegol Cyffredinol bu'n ymweld â phob un o'r prifysgolion a oedd yn gyfrifol am addysg

optometrig i israddedigion ac fe luniodd Adroddiad Roberts ar brosesau disgyblu'r Cyngor a mabwysiadu newid.

Mae Mr Roberts wedi bod yn ddarlithydd gwadd yn yr Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Llygaid ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae wedi bod yn uwch arholwr gyda Chymdeithas Optegol Prydain a Choleg Brenhinol yr Optometryddion.







Ein cyf/Our ref: MB/MD/2595/14

David Rees AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd

HSCCommittee@wales.gov.uk

17 Gorffennaf 2014

Annwyl David,

**Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 26 Mehefin – Sesiwn Ymchwiliad y  
Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser**

Yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 26 Mehefin cytunais i roi gwybodaeth i  
Aelodau am y canlynol:

1. nodyn ar ddarparu triniaeth a gwasanaethau i gleifion sydd â thiwmorau niwroendocrin ar lefel Cymru gyfan, fel enghraifft o wasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer canserau llai cyffredin;
2. cadarnhad bod y dechnoleg yn ei lle i gefnogi'r gwaith o adrodd yn amserol ar yr adolygiadau o'r achosion o ganser yr ysgyfaint a chanser gastroberfeddol yr ymdrinnir â hwy gan bob meddyg teulu yng Nghymru yn 2014 ar lefel meddyg teulu, lefel clwstwr meddygon teulu a'r lefel genedlaethol;
3. nodyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y trafodaethau tairochrog ar reoliadau drafft yr Undeb Ewropeaidd ar ddiogelu data, a'r effaith bosibl ar ymchwil canser yng Nghymru;
4. y papur a gyflwynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymchwiliad Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin i Sgrinio Iechyd Cenedlaethol;
5. nodyn i egluro a oes adnoddau a chapasiti ar gael ar gyfer sgrinio coluddion yng Nghymru;
6. darparu eich sylwadau am y pryderon a fynegwyd mewn perthynas ag arolygon iWantGreatCare;
7. nodi'r camau rydych yn eu cymryd i wneud yn siŵr bod gan bawb wasanaethau teg a mynediad i ofal diwedd oes.

**1.** Mae Tiwmorau Niwrodocrin (NETs) yn gyflwr prin (4 fesul 100,000) ac yn arbennig o anodd i'w ddiagnosisio gan fod y symptomau yn aml yn cael eu hadnabod fel cyflyrau eraill. Er mai dim ond un ganolfan arbenigol sydd yng Nghymru, mae'r Tîm Amlddisgyblaeth ar gyfer Tiwmorau Niwrodocrin, a leolir yng Nghaerdydd, yn cefnogi diagnosis a chyngor ar opsiynau triniaeth i gleifion ledled Cymru. Er mwyn cael triniaeth caiff cleifion eu hatgyfeirio i amrywiol ganolfannau arbenigol ar draws y DU, tra bydd cleifion yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro yn cael eu trin yn y ganolfan yng Nghaerdydd. O ran canserau mwy prin, lle nad oes modd i Fyrddau Iechyd Lleol unigol ddarparu'r gwasanaethau, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) neu'r Rhwydweithiau Canser fydd yn gyfrifol am sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu ar draws y Byrddau Iechyd Lleol.

**2.** Mae'r dechnoleg gyfredol yn golygu bod modd cofnodi atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu mewn amser real. Hyd yn hyn, nid yw'r dechnoleg yn gallu cadw'r dadansoddiad o'r llwybrau gofal, er mai dyma yw uchelgais y gwaith Clwstwr. Yn 2014/15, bydd meddygfeydd yn adolygu'r gofal am gleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser yr ysgyfaint neu ganser y system dreulio. Bydd hyn yn canolbwyntio'n benodol ar y broses ddiagnostig, pa mor briodol a chyflym yw'r diagnosis a'r pwyntiau dysgu i'w defnyddio mewn trafodaethau gan glystyrau meddygon teulu er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o brofiad y claf, nodi pwyntiau dysgu a gweithredu ar y dysgu hwnnw.

Mae gweithdy wedi'i drefnu ar gyfer Hydref 2014 i gasglu'r blaenoriaethau a nodir gan rwydweithiau Clwstwr - bydd hyn yn cynnwys blaenoriaethau o ran datblygu gwybodaeth a thechnoleg fel y gall swyddogion eu trafod ymhellach â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) a rhanddeiliaid. Fel rhan o hyn, bydd swyddogion yn gweithio gyda'r Rhwydwaith Canser i weld pa ddata sy'n ofynnol ar bob lefel i sicrhau datblygiad gwasanaeth a dysgu parhaus. Bydd Arweinwyr Clinigol Gofal Sylfaenol hefyd yn casglu enghreifftiau o arferion da er mwyn llywio'r gwaith o ddadansoddi ac adrodd ar ddata yn y dyfodol. Mae hyn yn adeiladu ar waith meddygfeydd unigol a Choleg Brenhinol Meddygon Teulu a Chynghorwyr Meddygon Teulu MacMillan sy'n cefnogi meddygfeydd a rhwydweithiau lleol i wella diagnosis cynnar a chanlyniadau canser.

Bydd themâu a chymau gweithredu allweddol clystyrau meddygon teulu yn rhan o Adroddiad Blynyddol y Rhwydwaith Clwstwr Meddygon Teulu.

**3.** Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu ynghylch effaith bosibl Rheoliad arfaethedig yr UE ar Ddiogelu Data ar y defnydd o ddata i gefnogi darpariaeth gwasanaeth y GIG, ac yn benodol y niwed potensial i'r ymchwil i iechyd ac ymchwil wyddonol.

Mae ymchwil wyddonol yn golygu llawer o fanteision arwyddocaol sy'n gwella ein dealltwriaeth o gymdeithas, iechyd a chlefydau. Fodd bynnag, yn ddiweddar mae Senedd yr UE wedi derbyn y gwelliannau i Erthyglau 81 ac 83 y Rheoliad arfaethedig ar Ddiogelu Data fel rhan o bleidlais floc, gan gefnogi'r holl welliannau arfaethedig. Mae'r Erthyglau hyn fel ag y maent yn fygythiad sylweddol i ymchwil iechyd a wyddonol - gan wneud llawer o'r ymchwil sy'n ymwneud â data personol ar ei waethaf yn anghyfreithlon, ac ar ei orau'n anymarferol.

Roedd y Rheoliad drafft gwreiddiol yn nodi mecanwaith cymesur ar gyfer diogelu preifatrwydd, gan alluogi'r parhad o ran ymchwil i iechyd ac ymchwil wyddonol. Roedd yn cynnwys gofyn am gydsyniad penodol a chlir i ddefnyddio a storio data personol, ond yn darparu eithriad ar gyfer ymchwil. Roedd gwneud hyn yn cydnabod bod modd amddiffyn diddordebau unigolion drwy gamau diogelu llywodraethu a moesegol cadarn, fel cymeradwyaeth gan bwyllgor moeseg ymchwil. Mae fersiynau diwygiedig Erthygl 81 ac 83 yn lleihau'n sylweddol sgôp yr eithriad hwn ar gyfer ymchwil. Byddai defnyddio data personol mewn ymchwil heb ganiatâd penodol yn cael ei wahardd, er gwaethaf y ffaith bod yr ymchwil yn amodol ar gymeradwyaeth foesegol a champau llym i ddiogelu cyfrinachedd.

Os daw i rym, byddai'r drafft presennol o'r Rheoliad UE yn peryglu buddsoddiadau o Gymru, y DU ac Ewrop mewn ymchwil, gan gynnwys geneteg, astudiaethau carfan, biofanciau, cofrestrfeydd clefydau a'r defnydd o ddata a gesglir fel mater o drefn i gefnogi ymchwil.

Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mwy na £7 miliwn ym manc data Cysylltu Gwybodaeth Ddiennw Ddiogel (SAIL) hyd yn hyn, gan gynnwys £3.9 miliwn gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (NISCHR). Mae'r dulliau newydd a ddefnyddir gan SAIL yn caniatáu i ddata a gesglir fel mater o drefn fod yn ddiennw a'i gysylltu fel y gellir ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil mewn modd diogel a sicr. Bydd y capasiti a'r arbenigedd a ddatblygwyd i gefnogi a gwella sut y cynhelir ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu tanseilio'n ddifrifol, a bydd cyflawniadau arwyddocaol yn segur os caiff Erthyglau 81 ac 83 o'r Rheoliad drafft cyfredol eu mabwysiadu.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn arwain trafodaethau â'r UE ar ran y DU er mwyn dod o hyd i ffordd o sicrhau y gall y Rheoliad ddiogelu ymchwil werthfawr wrth ddiogelu preifatrwydd. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn NISCHR wedi darparu briff, ynghyd ag adrannau iechyd eraill y DU, Cynghorau Ymchwil ac elusennau ymchwil feddygol, i gefnogi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i lobïo am newid i reoliad diogelu data arfaethedig yr UE.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn dal i gefnogi cydweithwyr yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder i godi mater y goblygiadau niweidiol ac i ddylanwadu ar newid i'r Rheoliad arfaethedig cyfredol wrth i'r ddeddfwriaeth basio drwy Gyngor yr UE a'r prosesau tairochrog.

Mae Cyngor Cyfiawnder a Materion Cartref yr UE wrthi'n gweithio tuag at gytuno ar safbwynt Cyngor yr UE ar y Rheoliad drafft, a bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal fis Hydref 2014. Unwaith y bydd Cyngor yr UE wedi cytuno'n ffurfiol ar safbwynt ar y Rheoliad drafft, bydd trafodaethau teirffordd rhwng y Senedd, y Cyngor a'r Comisiwn yn cychwyn.

Gallai fod o fantais pe bai'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder i annog ymdrechion i lobïo yn erbyn y gwelliannau i Erthyglau 81 ac 83 o Reoliad Diogelu Data drafft yr UE.

Cynigir bod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn anfon llythyr at y Gweinidog Cyfiawnder i hybu'r ymdrechion i lobïo yn erbyn y gwelliannau i Erthyglau 81 a 83 o Reoliad Diogelu Data drafft yr UE.

4. Atodir copi o Bapur Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymchwiliad Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin i Sgrinio Iechyd Cenedlaethol yn Atodiad A.

5. Ym mis Mawrth 2010, argymhellodd Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UK NSC) y dylid cyflwyno sigmoidosgopi hyblyg (FS) i'r rhaglen sgrinio bresennol am ganser y coluddyn. Dilynwyd yr argymhelliad hwn gan ymrwymiad yr Adran Iechyd i fuddsoddi £60m i ddatblygu gwasanaeth sgrinio FS yn Lloegr. Dechreuodd y rhaglen beilot ar gyfer sgrinio FS i rai 55 oed yn Lloegr ym mis Mawrth 2013 ac mae'n cael ei gyflwyno fesul cam gyda'r nod o sicrhau darpariaeth genedlaethol erbyn diwedd 2016.

Dechreuwyd rhaglen beilot yn yr Alban ym mis Ionawr 2013 mewn 4 bwrdd iechyd ac ar hyn o bryd mae'n gwahodd pobl rhwng 59 a 61 oed. Bydd cyfyngiad amser ar y peilot a chaiff ei werthuso'n ffurfiol cyn gwneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen. Nid oes unrhyw gynlluniau i weithredu FS yng Ngogledd Iwerddon.

Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto i gyflwyno FS fel rhaglen sgrinio yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda'r Athro Wendy Atkin, a arweiniodd y treialu gwreiddiol yn 2010, i sicrhau effaith potensial rhaglen sgrinio FS ar boblogaeth Cymru. Bydd y gwaith hwn yn edrych i weld pa mor ymarferol byddai cael rhaglen sy'n ategu rhaglen sgrinio bresennol canser y coluddyn.

Mae sigmoidosgopi hyblyg yn edrych ar ochr chwith y coluddyn yn unig, lle mae'r rhan fwyaf o ganserau'r polypau a'r coluddyn yn dechrau, felly mae angen sgrinio drwy Brawf Imiwnocemegol Ysgathrol (FOB) o hyd ar gyfer canserau sy'n dechrau ar ochr dde'r coluddyn.

Trafododd Pwyllgor Sgrinio Cymru FS yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Cydnabuwyd manteision yr ymyriad sgrinio hwn, ond cytunwyd y byddai gweithredu gwasanaeth o'r fath yng Nghymru yn dipyn o her o ystyried y nifer fach iawn sy'n manteisio ar sgrinio'r coluddyn drwy FOB ar hyn o bryd, ac o fewn y ddarpariaeth endosgopi gyfredol.

6. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd llais y claf ar gyfer gwella gwasanaethau, yn enwedig ar ddiwedd oes pan mae deall anghenion yr unigolyn yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol. Fel y dywed adroddiad Marie Curie, 'Gwrando ar Bobl sy'n Marw yng Nghymru', mae ein Cynllun Darparu Gofal Diwedd Oes yn pwysleisio'r rôl gref sydd gan adborth y claf a theluoedd mewn gwella gwasanaethau.

Cynhaliodd Canolfan Ymchwil Gofal Lliniarol Marie Curie (CNPCRCP), Prifysgol Caerdydd, astudiaeth *iwantgreatcare* yn ddiweddar er mwyn:

o Sefydlu a yw'r holiadur yn ddealladwy o ran ei gynnwys a strwythur yr eirfa a'r brawddegau;


o Edrych i weld a yw'r cwestiynau'n berthnasol i'r cyfranogwyr;

O ganlyniad i'r astudiaeth hon mae nifer o newidiadau'n cael eu gwneud i gynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan ac i wneud yr arolwg yn haws i'w ddefnyddio. Mae hyn yn cynnwys symleiddio'r rhyngwyneb i ddefnyddwyr a chael gwared ar eiriau cymhleth o'r ddogfen. Mae'r arolwg yn dal i fod yn adnodd da ar gyfer dal mewn amser real safbwyntiau cleifion o ran y gwasanaeth, a bydd y newidiadau a wnaed yn dilyn yr adolygiad yn gwella'r cyfranogiad.

7. Mae'r camau ar gyfer sicrhau gwasanaethau gofal cyfartal ar ddiwedd oes wedi'u nodi yn y Cynllun Darparu Gofal Diwedd Oes. Ymhlith y cyflawniadau yn y maes hwn mae:

- Sefydlu trefn o weithio saith diwrnod gan nyrsys clinigol arbenigol a mynediad i gyngor Ymgynghorydd 24/7 ledled Cymru.
- Cyllid ar gyfer gwelyau arbenigol a gwelyau seibiant mewn hosbisau ac ar gyfer datblygu gwasanaethau Hosbis yn y Cartref.
- Gwella mynediad i gyffuriau brys y tu allan i oriau arferol ac i raglen presgripsiynu ymlaen llaw, drwy flychau 'Rhag Ofn'.
- Fformiwla gyllido ar gyfer gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol, gan sicrhau lefel benodol o wasanaeth arbenigol ar draws Cymru (£6.4m - a ddosbarthwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwasanaethau).
- Gweithwyr cymorth gofal iechyd a benodwyd i dimau aciwt arbenigol i helpu i fodloni blaenoriaethau cleifion ar Ddiwedd Oes drwy gefnogi teuluoedd, cynnal urddas a pharch i gleifion yn y cyfnod terfynol, yn arbennig mewn sefydliadau aciwt prysur.
- Cysylltiadau ffurfiol ar draws Cymru rhwng nyrsys clinigol arbenigol a chartrefi nyrsio i gefnogi staff sy'n gofalu am breswylwyr ag anghenion gofal diwedd oes.
- Datblygu system gwybodaeth glinigol ar gyfer gofal lliniarol.
- Rhaglen werthuso genedlaethol i gleifion (*Iwantgreatcare*).
- Gwefan gofal lliniarol i Gymru lle mae mynediad agored i wybodaeth ar bob agwedd ar ofal clinigol a rhaglenni gwaith strategol.
- Datblygu cwrs byr ar ofal lliniarol i feddygon teulu.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AC / AM**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

# **Evidence to Commons Science and Technology Select Committee Enquiry into National Screening Programmes**

**Author:** Dr Rosemary Fox Director Screening Division Public Health Wales

**Date:** 08.04.14

**Version:**

**Purpose and Summary of Document:**

**This paper is to provide the Commons Science and Technology Select Committee with written evidence on national screening programmes, with particular emphasis on the Welsh experience.**

## **1 Executive Summary**

- This submission is prepared for the Committee by Public Health Wales.
- The process by which the UK National Screening Committee examines the evidence for non-cancer screening programmes is thorough, systematic and robust.
- Evaluation of evidence regarding cancer screening is less systematic, with the trigger being a decision taken on a case by case basis by the Director of the UK National Screening Committee.
- Evidence regarding risks of screening is less systematically collected than evidence of benefit
- The balance of benefit and harm is poorly understood by public and professionals alike
- Communication of benefits and harms is complex. Information developed to allow individuals to make an informed choice about participation may need further refinement to meet the needs of people with low levels of health literacy.

## **2 Public Health Wales**

Public Health Wales was established as an NHS Trust on 1 October 2009.

### **Public Health Wales has four statutory functions:**

- To provide and manage a range of public health, health protection, healthcare improvement, health advisory, child protection and microbiological laboratory services and services relating to the surveillance, prevention and control of communicable diseases;
- To develop and maintain arrangements for making information about matters related to the protection and improvement of health in Wales available to the public; to undertake and commission research into such matters and to contribute to the provision and development of training in such matters;
- To undertake the systematic collection, analysis and dissemination of information about the health of the people of Wales in particular including cancer incidence, mortality and survival; and prevalence of congenital anomalies; and
- To provide, manage, monitor, evaluate and conduct research into screening of health conditions and screening of health related matters.



The Screening Division of Public Health Wales provides the following population screening programmes in Wales:

- Breast Test Wales, screening approximately 100,000 women aged 50-70 each year
- Cervical Screening Wales, screening approximately 220,000 women aged 25-64 each year
- Bowel Screening Wales, screening approximately 350,000 men and women aged 60-74 each year
- The Wales Abdominal Aortic Aneurysm Screening Programme, screening approximately 16,000 men aged 65 each year
- Newborn Hearing Screening Wales, screening approximately 35,000 babies each year.

Public Health Wales will shortly take responsibility for Newborn Bloodspot Screening Wales.

Public Health Wales also hosts the managed clinical network for Antenatal Screening in Wales, although the delivery of antenatal screening remains a Health Board responsibility.

### **3 What evidence are the NHS Screening Programmes based on and how often is it reviewed?**

Screening policy in Wales is set by Welsh Government, which has established the Wales Screening Committee to advise the Minister for Health & Social Services. The committee has members drawn from Government, Public Health Wales, Welsh Health Boards and Community Health Councils.

The Wales Screening Committee considers the recommendations of the UK National Screening Committee (UKNSC). The UKNSC advises Ministers and the NHS in the four UK countries about screening. It evaluates the evidence for proposed and existing screening programmes against a set of internationally recognised criteria covering the condition, the test, and the programme. Evidence is reviewed regularly, and the schedule for review is published on the UKNSC website: <http://www.screening.nhs.uk/about>.

The evidence reviews carried out on behalf of the UKNSC are of a very high standard, and are made publically available as part of the public consultation involved in review process. Two UKNSC members are from Wales, including the Director of the Screening Division of Public Health Wales.

The UKNSC is responsible for making recommendations for screening across all clinical areas, and is the source of advice for Welsh Government, and therefore for screening in Wales.

However, in the case of cancer screening the Director of the UKNSC takes a view on a case by case basis on whether a proposal by the English cancer screening programmes constitutes a major change. When such a proposal is deemed to warrant a UKNSC policy, the arguments put to the English Advisory Structure are sought and presented to the UKNSC, in the form of a review against the UKNSC criteria. Thus the trigger for reviews of the evidence for cancer and non-cancer screening evidence differs, with non-cancer screening evidence being reviewed regularly according to a published timetable, and evidence relating to cancer screening being reviewed in a more 'ad hoc' basis.

As Welsh Government Policy is based on UKNSC advice, this can lead to uncertainty about the timescales for decisions about new evidence regarding cancer screening. For example the UKNSC did not examine the evidence for the age range and frequency of cervical screening until 2012, nine years after the English NHSCSP had changed its policy.

#### **4 Could the evidence base and sources of scientific advice to government on health screening be improved?**

The UKNSC is currently reviewing its role, terms of reference and membership. It is consulting on proposals to strengthen the lay membership and ethical representation on the Committee. In the opinion of Public Health Wales this would be a positive step.

A literature review undertaken as part of the review process suggests that the criteria used by the UKNSC in its appraisal of the evidence are robust. Public Health Wales agrees with this.

Public Health Wales would like to see a systematic approach to regular evidence review applied to cancer screening as it is to non-cancer screening.

#### **5 How effectively are the potential risks and benefits of health screening communicated and understood by the public?**

Public Health Wales believes that risks and benefits of screening are poorly understood by both professionals and the public, with benefits typically being over-estimated, and risks under-estimated. This is reinforced by a tendency to focus on levels of participation in screening as a measure of programme success.

The UKNSC explicitly considers harms of screening as well as benefits when considering evidence. However, much of the quantitative evidence considered by the committee relates to benefits- mortality reduction is a common end-point, for example. Risks are rarely as well quantified. Without robust estimates of the magnitudes of harms, it is difficult to give

a definitive estimate of the precise balance of good and harm resulting from screening. This is borne out by the recent review of the evidence for breast screening led by Prof Michael Marmot's team.

The breast screening leaflet developed by the DH Advisory Committee on Informed Choice in Cancer Screening will be launched in bilingual format in Wales in the near future. Communication of benefit and risk is complex even when the estimates are robust. Focus Group work carried out by Public Health Wales' Screening Engagement Team has found a resistance amongst volunteers to information regarding risks of screening, and provision of meaningful information balancing risks and benefits to groups with low levels of health literacy will remain very challenging.

## **6 How does health screening provided in the UK through the NHS compare with that offered by other countries?**

Public Health Wales has little evidence on the organisation of, or effectiveness of screening programmes beyond the UK.

Mark Drakeford AC / AM  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MB/MD/3616/14

Elin Jones AC  
Kirsty Williams AC  
Darren Millar AC

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

27 Awst 2014

*Annwyl Aelod,*

Ysgrifennaf i'ch hysbysu fel llefarwyr y gwrthbleidiau ar lechyd fod Dr Philip Jones wedi cael ei benodi yn Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Strôc yn dilyn cystadleuaeth agored.

Swydd Dr Jones fydd goruchwyllo'r gwaith parhaus o weithredu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc. Mae'n Feddyg Ymgynghorol sydd â diddordeb mewn gofal ar gyfer yr henoed a diddordeb is-arbenigedd mewn niwroleg ac adsefydlu. Mae'n gweithio yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais, Aberystwyth.

Anfonaf gopi o'r llythyr hwn at David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

*In gywir  
Mark.*

**Mark Drakeford AC / AM**  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

Mark Drakeford AC / AM  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MB/MD/3616/14

Elin Jones AM  
Kirsty Williams AM  
Darren Millar AM

National Assembly for Wales

27 August 2014

*Dear colleague,*

I am writing to inform you as opposition spokespeople for Health that, after an open competition exercise, Dr Philip Jones has been appointed as the National Clinical Lead for Stroke Services.

Dr Jones's role will be to oversee the continued implementation of the Stroke Delivery Plan. He is a Consultant Physician with an interest in care of the elderly and sub-speciality interests in neurology and rehabilitation. He works at Bronglais General Hospital, Aberystwyth.

I am copying this letter to David Rees AM, Chair of the Health and Social Care Committee.

*Best wishes,  
Mark.*

**Mark Drakeford AC / AM**  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## **Cardiff and Vale University Health Board response to the National Assembly for Wales Health and Social Care Committee inquiry into access to medical technologies within primary care.**

### **Introduction**

1. Cardiff and Vale University Health Board (UHB) is well positioned to realise the potential of medical technology in primary care. The UHB is fortunate to have good quality primary care (across all contractors) and a real interest and engagement from practices to trial new technologies and champion successes. Consequently, there are pockets of the use of medical technology supporting good clinical practice and this paper refers to some of examples.
2. However, the potential is far greater if both the spread and the ambition extends. Cardiff and Vale are not only well placed in terms of good quality primary care with real enthusiasts to champion developments but also with the UHB's information platform. In Cardiff and Vale, PARIS is our information system of choice for community and mental health services. This is well received by primary care and can provide linkages to secondary and tertiary care. The system is widely used by staff at clinical bases and on a mobile basis. Information on care joined up at patient level and visible is essential to maximising the benefits of an integrated organisation, an opportunity that is unique to Wales.
3. This paper sets out the vision within Cardiff and Vale that would build upon the solid foundation of good quality primary care and a solid information platform for the use of medical technologies within a whole system.

### **Cardiff & Vale – Current Situation**

4. Cardiff & Vale UHB are the only Health Board in Wales to have an information system (PARIS) that supports the full electronic patient record for mental health and community services (including Local Authority delivered elements) and which can 'talk' to the hospital systems and share information both ways. Previously these services had manual systems or, at best, poor IT infrastructure that did not 'join up' across services.
5. The design and implementation of the PARIS system has been service user led from the start which the UHB regards as critical to the successful implementation. With over 4000 users across approximately 150 clinical teams, there are 700 clinical assessments recorded each day and 7000 case notes recorded.
6. To build upon this initiative and to remove the need for staff to return to their bases to collect and update records, a mobile-working solution was sought. Following pump priming funding via Welsh Government Invest to Save, mobile working was comprehensively rolled out in April 2011.
7. This is a solid foundation for supporting integrated working across primary care, social care and hospital care.
8. The following provides some examples of the current use of technology in primary care. It should be noted that the technology support changes in pathway (shifting care in the

community from hospital services) and also requires a change management to ensure they are fully embedding into everyday new ways of working.

### ***Teledermatology***

9. The teledermatology service focuses on bridging the gap between hospital based specialists and doctors in primary care. The teledermatology service links specialist dermatologists with patients and doctors in approximately 40 GP practices throughout Cardiff and the Vale of Glamorgan saving an estimated 700 out patient appointments per year. Benefits include much faster access to specialist dermatology advice, helping to develop doctors' experience and skills, and also cutting down waiting times for patients and referrals to hospitals.

### ***ECG***

10. Electrocardiograms (ECGs) are regularly used in primary care both for diagnostic and screening purposes, and to support referral to specialist services. Approximately 80% - 90% of GP practices have purchased ECG for use in Primary Care. It is difficult to estimate the number of patients who undergo ECG monitoring in primary care however the benefits are great. Early detection leads to early action and treatment moving diagnosis for some conditions such as stable AF from the acute hospital setting in to primary care allowing GP's to develop and provide a more proactive and preventable model of care.

### ***Level 4 INR***

11. Level 4 INR monitoring was introduced in Cardiff & Vale Primary Care in 2007. Initially only a small number of practices were commissioned to provide this service however over time this has increased to a total of 41 practices providing this service. INR level 4 provides point of care testing for INR monitoring within the primary care environment. This allows 'One stop' care to be provided within the GP practices: testing, analysing, dosing and prescribing in one visit which improves quality & safety for patients, improves patient experience and reduces diagnostic lab test requests within secondary care. Approximately 2450 patients are monitored using INR level 4.

### ***Ambulatory Blood Pressure Monitoring (ABPM)***

